

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygiadau etc) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron Senedd Cymru os yw Offeryn Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
2. Gosodwyd Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygiadau etc) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020 ("Rheoliadau 2020") gerbron Senedd y DU ar 22 Hydref 2020. Cewch weld y Rheoliadau 2020 yn:

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/dEaap6JB/SI-2020/>

Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcanion

3. Amcan Rheoliadau 2020 yw sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cwrdd â'i hymrwymiaidau o dan Brotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael ("y Protocol") a rhoi'r Protocol ar seiliau cyfreithiol, i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithredu'r effeithlon i'r DU y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE) mewn perthynas â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC), fel ag sydd ei angen ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.
4. Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth sylfaenol ganlynol:
 - Deddf Pysgodfeydd 1981

Darpariaeth berthnasol i'w gwneud trwy'r OS

5. Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud newidiadau technegol i Reoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 sydd yn eu tro yn diweddarau'r darpariaethau yn Adran 30 Deddf Pysgodfeydd 1981 mewn perthynas â Gogledd Iwerddon ac â Phrydain Fawr fel ei gilydd.
6. Mae'r diweddariadau hyn yn galluogi Gogledd Iwerddon i orfodi ei hymrwymiaidau o dan gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys o dan y Protocol. Heb y newid hwn, ni allai awdurdodau Gogledd Iwerddon orfodi cyfraith pysgodfeydd yr UE sy'n uniongyrchol gymwys yng Ngogledd Iwerddon ac ni fyddai'r DU yn gallu cwrdd â'i hymrwymiaidau o dan y Protocol.

Pam ei bod yn briodol gwneud y ddarpariaeth hon trwy'r OS

7. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch polisi'r cywiriad. Byddai gwneud OSau ar wahân felly yng Nghymru a Lloegr i gywiro'r cyfeiriad dan sylw yn arwain at ddyblygu gwaith, ac at gymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen. Trwy gydsynio i'r OS hwn, sicrhair bod un fframwaith deddfwriaethol yn bod ar draws Cymru a Lloegr. Mae hynny'n annog eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Goblygiadau ariannol

8. Ni ragwelir goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn sgil y Rheoliadau hyn.

Lesley Griffiths AS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Hydref 2020